**Agenda Eitem: 4**

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Tŷ Nant, Ffordd Llys Nant, Prestatyn ar ddydd Gwener, Medi 23ain., 2011 am 9.30 y.b.

## YN BRESENNOL

Mr. C.B. Halliday (Cadeirydd), Ms. M.E. Medley, Mr. G.F. Roberts a Mrs. P. White ynghyd â'r Cynghorwyr G.A. Green, D.E. Jones ac H. Ll. Jones

## HEFYD YN BRESENNOL

Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithiwr: Llywodraethu Corfforaethol (LJ) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ). Roedd y Rheolwr Prosiect Asedau Cynaliadwy (HB) yn bresennol ar gyfer eitem rhif 6.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Doedd dim ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chodwyd yr un datganiad diddordeb personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS A GYTUNWYD O'R GADAIR

Ni chodwyd yr un mater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar Orffennaf 15fed, 2011.

**Cywiriad –**

Tudalen 5: Cyfarfod Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru - Er mwyn adlewyrchu'n well yr ystyr a fwriadwyd ar gyfer y frawddeg, gofynnodd y Cyng. G.A.Green i'r gair 'prospective' ym mharagraff olaf tudalen 5 gael ei newid i 'interpretation' er mwyn darllen '...*with each authority having a different interpretation of the Code of Conduct*'.

**Materion yn Codi –**

Tudalen 3 - Eitem Rhif 5: Cwynion Cod Ymddygiad - Ymholodd y Cyng. G.A.Green a anfonwyd llythyr at Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Powys mewn ymateb i'w pryderon ar faterion diffyg atgyfeirio gan yr

Ombwdsmon gyda golwg ar rai toriadau yn y Cod Ymddygiad. Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod llythyr wedi ei anfon yn mynegi sylwadau'r Pwyllgor Safonau hwn y dylid cyfeirio'r mater i Gynhadledd Safonau Cymru 2011 am ystyriaeth ac arweiniad. Datganodd aelodau eu gobaith y byddai cyfle i drafod y mater yn uniongyrchol gyda'r Ombwdsmon yn y gynhadledd honno.

Tudalen 5 - Eitem Rhif 7: Cyfarfod Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru - adroddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Medi 22ain., 2011 wedi ei ganslo ac y cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 1af., yng Nghanolfan Busnes Conwy. Mae'n arferol i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau i fynychu er bod gwahoddiad agored i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau. Roedd Mr. G.F.Roberts (Is-gad.) wedi cynnig ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwnnw a chadarnhaodd Mrs.P.White y byddai'n fodlon mynychu yn ei le.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol i'r uchod, bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 15fed., 2011 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Fe nododd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) nad oedd unrhyw adroddiadau ysgrifenedig o bresenoldeb mewn cyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref na Chymuned wedi eu cyflwyno gan aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Hysbysodd Mrs. M.Medley y pwyllgor iddi hi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Dinbych ar Orffennaf 27ain. 2011 a ymddangosodd yn ddigon trefnus a dan reolaeth. Fe adroddodd fod dadl ddigon croch wedi bod ar y Siarter arfaethedig rhwng Cynghorau Sir a Thref/Cymuned a cheisiodd arweiniad p'unai y gallai dynnu sylw at y drafodaeth honno pan fydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried yr eitem honno ar agenda heddiw. Roedd y Cadeirydd yn ymwybodol fod materion tebyg eisoes wedi'u codi yn ystod y broses ymgynghori ar y Siarter arfaethedig ac fel y cyfryw, teimlai ei bod hi'n briodol i Mrs. Medley wneud sylw ar yr agweddau hynn pa ystyrir yr eitem honno gan y pwyllgor.

***PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa.*

## 6 SIARTER RHWNG CYNGHORAU TREF a CHYMUNED SIR DDINBYCH a CHYNGOR SIR DDINBYCH

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Prosiect Asedau Cynaliadwy (RhPAC) ar y Siarter arfaethedig rhwng Cynghorau Tref a Chymuned Sir Ddinbych(CT&Ch) a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd). Mae'r Siarter ddrafft (Atodiad A); Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cychwynnol (Atodiad B) ac Amserlen Ymgynghoriad y Siarter (Atodiad C) wedi eu hatodi i'r adroddiad.

Eglurodd RhPAC yn fras, swyddogaeth Gweithgor Datganoli a Grymuso CT&Ch wrth ddatblygu a chyflwyno'r Siarter ddrafft ynghyd â'i rôl o fewn y broses honno. Fe gyfeiriodd at y rhesymwaith ynghlwm wrth y Siarter arfaethedig er mwyn diffinio a gwella'r berthynas bresennol rhwng CT&Ch Sir Ddinbych a ChSDd a threfnu ymrwymiadau'r Cyngor i sicrhau fod buddiannau'r cyd-weithio yn cael eu cyflawni er budd y trigolion. Fe ddigwyddodd y broses hon hefyd wrth ystyried yr agenda o gydweithrediad cynyddol a'r potensial am ranbarthiaeth gynyddol. Roedd y Siarter yn ffordd arbennig i GSDd a'r CT&Ch gyfarfod ag anghenion yr ardaloedd lleol ac ymgysylltu rhanddeiliaid CSDd a'r CT&Ch mewn dull cadarnhaol a chydweithiol ac i sicrhau dull cyson o weithredu ledled y sir. Fe gyfeiriodd RhPAC hefyd at y penawdau agenda oddifewn i'r Siarter ddrafft ac amlygodd eitemau o ddiddordeb penodol i'r pwyllgor.

Fe lansiwyd ymgynghoriad cychwynnol ar y Siarter ddrafft ym Mehefin 2011 ac ymestynnwyd y llinellau amser yn seiliedig ar adborth blaenorol oddiwrth y Pwyllgor Safonau a'r CT&Ch gan ystyried gwyliau'r haf ac amseriad cyfarfodydd CT&Ch. Cyfeiriwyd at ymatebion yr ymgynghoriad cychwynnol (Atodiad 2 o'r adroddiad) a oedd, i raddau helaeth, yn gadarnhaol er bod rhywfaint o anghytuno ar rai materion. Roedd CSDd wedi bod yn fodlon i gyfarfod 'r CT&Ch i drafod y Siarter ddrafft; roedd Arweinydd a Chyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu a Chymunedau wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Tref Prestatyn a bydd RhPAC yn mynychu cyfarfod o Gyngor Tref Corwen cyn bo hir. Er mwyn hwyluso'r cyfarfodydd gyda'r CT&Ch, cynhyrchwyd tudalen 'Cwestiynau a Ofynnir yn Aml' (a gylchredwyd yn y cyfarfod) er mwyn mynd i'r afael rhai o'r materion a godwyd.

Yn olaf, cynghorwyd aelodau y byddai mabwysiadu ffurfiol ac arwyddo'r Siarter yn digwydd ym mis Rhagfyr yn dilyn ail gyfnod ymgynghorol ac fe obeithir lansio'r Siarter ym mis Ionawr 2012 ynghyd â Chompact y Trydydd Sector. Mewn ymateb i gwestiwn o'r Gadair, fe gynghorodd y RhPAC nad oedd hithau'n ymwybodol fod unrhyw awdurdod arall yng Ngogledd Cymru wedi cyflwyno Siarter, er i rai o awdurdodau De Cymru wneud hynny.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, mynegodd aelodau eu barn a gwneud sylwadau ar y Siarter fel a ganlyn -

- amlygu'r ffaith fod rhai Cynghorau Cymuned yn teimlo eu bod yn cael eu 'meddiannu' gan GSDd
- dylid adolygu defnydd yr iaith oddifewn i'r ddogfen er mwyn ei gwneud yn hawdd ei defnyddio a deniadol i'r CT&Ch, e.e. 'Mae CSDd am gynnal o leiaf ddau gyfarfod cyswllt' i'w newid i ddarllen 'Mae CSDd am drefnu o leiaf ddau gyfarfod cyswllt' gan fod 'cynnal' yn awgrymu mai CSDd fyddai'n rheoli'r digwyddiad.
- am eglurder, dylid newid y cyfeiriad at 'gynghorau lleol' oddifewn i'r Siarter i 'cynghorau tref a chymuned'

- croesewir y cyd-ymrwymiadau ar gyfer hyfforddiant sy yn y Siarter, yn benodol yr ymgymeriad i GSDd gynnig digwyddiadau hyfforddiant i'r CT&Ch ar adrannau perthnasol yn cynnwys Polisïau Cynllunio a Chod Ymddygiad ac i'r CT&Ch gymryd rhan weithredol mewn cyfleoedd hyfforddiant; hyrwyddo'r defnydd o esiamplau mewn sesiynau hyfforddiant er mwyn esbonio sut all materion gael eu cymhwyso mewn amgylchiadau neilltuol
- awgrymir fod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i'w wneud yn orfodol ar gyfer holl Gynghorwyr Tref a Chymuned ac y gallai Cynghorydd hyfforddedig neu aelod hyfforddedig o'r Pwyllgor Safonau ymgymryd â hyfforddiant ad hoc yn y cyswllt hwnnw. Cynghorodd y RhPAC fod sawl aelod o staff hyfforddedig a fuasai'n abl i ymgymryd â hyfforddiant i'r CT&Ch.
- gan gymryd i ystyriaeth y gall pobl leyg sy'n gweithio oddifewn i'r gymuned ddigalonni o feddwl am orfod ymgymryd â hyfforddiant, roedd awgrym y dylid sôn am yr hyfforddiant oddifewn i'r ddogfen mewn termau mwy derbyniol megis deall y system
- nodwyd fod rheidrwydd ar Gynghorau Sirol, Tref a Chymuned i addysgu cynghorwyr posib
- doedd pwerau na dyletswyddau'r cyngor sir heb eu cynnwys oddifewn i'r Siarter ac roedd diffyg cyfeirio at gynllunio yn y pwerau a'r gweithgareddau perthynol i'r CT&Ch
- roedd angen i'r Siarter fod yn ddogfen fywiol a ddaw i'r amlwg trwy ei gweithredu a'i gwerthuso'n barhaus
- doedd dim cyfeiriad oddifewn i'r Siarter ar sut y bydd yn ei chymhwyso a glynu wrthi ac roedd angen sicrhau fod gweithrediad y Siarter yn cael ei fonitro a'i adolygu'n barhaus i sicrhau ei heffeithiolrwydd a'i llwyddiant

Eglurodd y Cyng. H.Ll.Jones, a oedd yn aelod o Weithgor Datganoli a Grymuso CT&Ch, y rhesymeg gychwynnol dros sefydlu'r Gweithgor er mwyn delio sefyllfa cyllid CSDd a mynd i'r afael 'r anghysonderau rhwng y gwasanaethau a ddarperir gan y gwahanol GT&Ch. Fe bwysleisiodd yr angen am ymdriniaeth gyson er budd tegwch. Roedd yn bwysig i ddiffinio swyddogaeth y CT&Ch a chaniatáu rhannu gwybodaeth - byddai'n broses hir a chyfredol. Dylid hefyd nodi y gellir capio cynnydd mewn Treth Cyngor ar lefel Sirol ond na ellir felly i'r praesept a gymhwysir gan y CT&Ch.

Yn gyffredinol, teimlai aelodau y gallai'r Siarter chwarae rhan bwysig wrth feithrin perthynas cadarnhaol rhwng Cynghorau Sirol a rhai Tref a Chymuned a bod y broses yn cael ei reoli gyda sensitifrwydd, gan ystyried sylwadau'r CT&Ch ac ymatebion ymgynghoriad, yn enwedig lle bo unrhyw faterion dadleuol. Y consensws barn oedd bod y byddai unrhyw ddulliau sy'n gwella cyfathrebu rhwng cynghorau'n fuddiol ac fe amlygwyd yn benodol pwysigrwydd i Gynghorwyr Sirol weithredu fel dolen gyswllt rhwng y Cyngor Sirol a'r rhai Tref a Chymuned. Fe groesawodd aelodau nifer o negeseuon allweddol o'r Siarter ddrafft hefyd, yn enwedig pwysigrwydd i gynghorau adolygu'n gyfredol ac ystyried eu cod ymddygiad a'u cyfleoedd hyfforddiant.

Wedi ystyried sylwadau'r aelodau ar y siarter ddrafft, cytunodd y RhPAC i –

- disodli cyfeiriadau at 'cynghorau lleol' gyda 'cynghorau tref a chymuned'
- ymgymryd ag awdit o'r Siarter ddrafft i chwilio geiriau 'addas' a'u disodli gyda therminoleg fwy apelgar
- cryfhau adran Monitro, Adolygu a Chwynion y Siarter yn manylu sut y byddid yn cymhwyso a chadw at y ddogfen (gan gynnwys cyfeiriadau at hyfforddiant wrth gael eich anwyth; ychwanegu'r Siarter fel eitem agenda yng Nghynhadledd Rheolwyr Canol (CRhC); rôl y Pwyllgor Craffu ar Gymunedau yn gwerthuso'i gweithrediad a sut y byddai clystyrau yn chwarae rhan cyfeillio allweddol)
- ystyried y posibilrwydd o gynnwys atodiad Pwerau a Dyletswyddau ar gyfer y Cyngor Sir yn ogystal â'r CT&Ch

Diolchodd y Cadeirydd i'r RhPAC am ei chyflwyniad diddorol ac addysgiadol o'r Siarter ac fe –

**BENDERFYNWYD**, *yn amodol ar sylwadau aelodau uchod, bod y Siarter ddrafft rhwng Cynghorau Tref a Chymuned Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych yn cael ei chefnogi ar gyfer ail ran yr ymgynghoriad.*

## 7 PROTOCOL HUNANREOLI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro (a gylchredwyd eisoes) yn cyflwyno fersiwn arfaethedig y Protocol Hunanreoli cyn ei ystyried gan Arweinwyr Grwpiau ac yna'r Cyngor llawn. Fe atodwyd i'r adroddiad, gopi o'r Protocol Hunanreoli (Atodiad 1), ynghyd â'r ymateb i'r Protocol drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru (Atodiad 2).

Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) at bryderon blaenorol y pwyllgor gyda golwg ar gwynion rhwng aelodau nad oedden nhw'n ddigon difrifol i'w cyfeirio at yr Ombwsdmon ac y gallai Cod Ymddygiad yr Aelodau gael ei ddefnyddio fel arf gwleidyddol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny, datblygwyd Protocol Hunanreoli a oedd yn cynnwys rhai mân welliannau a gytunwyd gan y pwyllgor yn eu cyfarfod diwethaf. Sefydlodd y Protocol weithdrefn ar gyfer y cwynion hynny na fyddant o bosib yn cyrraedd y trothwy sy'n dynodi tramgwyddo, i gael eu delio dan weithdrefn lleol; a'r hyn sy'n cyfiawnhau cwyn ffurfiol i'w gyfeirio at yr Ombwdsmon. Byddai'r cynnig presennol yn golygu ymrwymiad gan yr Arweinwyr Grwpiau ac un aelod (mewn rota) o'r Pwyllgor Safonau. Y bwriad oedd i'r Protocol sefyll ochr yn ochr â'r Cod Ymddygiad. Fe osodwyd cynllun gweithredu diwygiedig, yn olrhain y broses ymgynghori cyn mabwysiadu'r Protocol, ym mharagraff 2.4 o'r adroddiad. Byddai angen i'r Pwyllgor Safonau ystyried estyniad Protocol o'r fath i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned mewn cyfarfod

pellach. I ddiweddu, tynnodd y DSM sylw aelodau at ymateb cadarnhaol yr Ombwdsmon i'r Protocol drafft a atodwyd i'r adroddiad.

Roedd aelodau'n falch o nodi ymateb cadarnhaol yr Ombwdsmon i'r Protocol drafft a oedd cystal ag ategu'r mesurau i ddelio â materion yn lleol, gyda'r rhybudd fod yn rhaid i dramgwyddau difrifol gael eu cyfeirio at ei swyddfa ef, yn unol â'r ddeddfwriaeth presennol. Cyfeiriodd y DSM at Siart Llif Cwynion Aelod/Aelodau a chroesawodd y pwyllgor y byddai'r Swyddog Monitro yn ymwneud ar bob cam ac hefyd yn falch o nodi cynhwysiad Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau o fewn i'r broses.

Trafododd y pwyllgor nifer o faterion gyda'r DSM yn codi o'r adroddiad, gan gynnwys –

- gan fod aelodau'n parhau â'r opsiwn o anfon mân-gwynion yn uniongyrchol at yr Ombwdsmon, roedd angen annog yn frwd yr holl gynghorwyr i ddilyn y Protocol Hunanreoli unwaith y'i mabwysiadwyd, i sicrhau y delir â mân-gwynion ar lefel lleol yn y dyfodol; gan y bydd gofyn i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Protocol yn ffurfiol, y gobaith oedd y byddai'r holl gynghorwyr yn ymrwymo i'r dull yma
- dylid cyfeirio yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn at ymateb cadarnhaol yr Ombwdsmon a'i barodrwydd i ganiatáu materion o'r fath i'w trafod yn lleol ac fe gytunodd y DSM i gynnwys llythyr yr Ombwdsmon wrth gyflwyno'r adroddiad ar y Protocol i'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu
- nodwyd y cyfeiriad yn llythyr yr Ombwdsmon at newid potential oddifewn i'r ddeddfwriaeth a all ganiatáu gweithdrefnau lleol i'w llwyr archwilio i gychwyn cyn cael eu cyfeirio at swyddfa'r Ombwdsmon os nad oedd posib cael datrysiad yn lleol
- fe amlygwyd yr anhawster wrth eirio cyd-destun mân-gwynion i egluro, lle dylai cwynion, nad ydynt o bosib yn cyrraedd y trothwy ar gyfer dod yn dramgwydd, gael eu trin dan weithdrefnau lleol, ynghyd ag absenoldeb unigolyn penodol i ddiffinio os oedd cwyn wedi cyrraedd y trothwy – fe awgrymwyd, petai unrhyw amheuaeth, y dylid cyfeirio'r gwyn at yr Ombwdsmon ac yn y dyfodol, dylid disodli'r cyfeiriad at " ... y cwynion hynny efallai na fyddant yn cyrraedd y trothwy" gyda " ... y cwynion hynny nad ystyrir eu bod yn cyrraedd y trothwy"
- cefnogwyd y potential i ymestyn y Protocol i holl Gynghorau Tref a Chymuned fel opsiwn ymarferol unwaith y byddai'r esiampl wedi ei osod ar lefel Sirol, yn enwedig gyda golwg ar y nifer o gwynion aelod-aelod, ac fe awgrymodd y DSM y byddai prosiect peilot ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn briodol
- fe awgrymwyd ymhellach, pe byddai'r Protocol i'w ymestyn i Gynghorau Tref a Chymuned, y gall fod cyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i fod ynghlwm â'r broses yn hytrach na'r aelodau annibynnol yn unig
- byddai technegau cyfryngu ar gyfer y Swyddog Monitro a'i Ddirprwy Swyddog, Arweinwyr Grwpiau ac aelodau'r Pwyllgor Safonau, yn ddefnyddiol ar gyfer delio â chwynion aelodau fel rhan o'r Protocol newydd

Crybwyllodd y DSM y byddai'n adborthi sylwadau aelodau i'r Arweinwyr Grwpiau ac adrodd nôl ymhellach yng nghyfarfod nesa'r pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** –

a) *fod sylwadau'r pwyllgor ar y Protocol Hunanreoli drafft fel ag y manylir uchod, i'w hadrodd nôl at yr Arweinwyr Grwpiau;*

b) *y bydd adroddiad cynnydd ar y Protocol Hunanreoli drafft yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesa'r Pwyllgor Safonau, ac*

c) *fel rhan o'u rôl yn delio â chwynion aelodau o dan y Protocol Hunanreoli, fod hyfforddiant cyfryngu i'w drefnu ar gyfer y Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro, Arweinwyr Grwpiau ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau.*

## 8 CYFARFOD PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Busnes Conwy ar Fehefin 10fed., 2011 (cylchredwyd eisoes).

Atgoffodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr aelodau fod cyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a oedd i'w gynnal ar Fedi 22ain., 2011 wedi ei ganslo ac y cynhelir y cyfarfod nesa' ar Dachwedd 1af. yng Nghanolfan Busnes Conwy. Roedd Mr. G.F.Roberts (Is-gad.) wedi cynnig ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwnnw ac fe gadarnhaodd Mrs. P.White y byddai'n fodlon mynychu yn ei le.

***PENDERFYNWYD*** *fod cofnodion Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Fehefin 10fed, 2011 i'w derbyn a'u nodi.*

## 9 CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2011

Gofynnodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) am gadarnhad presenoldeb aelodau yn y Gynhadledd Safonau i'w chynnal yng Nghyngor Sir Powys ar Hydref 5ed., 2011. Cylchredwyd copi o bapurau'r cyfarfod yn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y DSM at y papurau ar gyfer y Gynhadledd Safonau a nododd y gofynnwyd i gynrychiolwyr ddarllen y senario ar gyfer y gwrandawiad ffug cyn y cyfarfod ei hun. Estynnodd y Cynghorwyr G.A.Green ac H.Ll.Jones eu hymddiheuriadau ar gyfer y Gynhadledd Safonau ond cadarnhaodd gweddill y cynghorwyr eu presenoldeb. Trafododd y pwyllgor drefniadau teithio'n fras a chytunodd y DSM i gysylltu yr wythnos ganlynol, gyda'r aelodau hynny oedd am fynychu, i gadarnhau'r trefniadau hynny.

***PENDERFYNWYD*** *nodi argaeledd aelodau yn mynychu Cynhadledd Safonau Cymru 2011.*

**GWAHARDDIAD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD****, o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ddilynol o fusnes, ar y sail y byddai'n ymwneud â'r dadlennu tebygol o wybodaeth wedi'i eithrio fel y diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.*

**10 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol (cylchredwyd eisoes) gan y Swyddog Monitro yn darparu arolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gofrestrwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers Rhagfyr 1af., 2010.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) yr adroddiad i aelodau a oedd yn manylu ar yr awdurdod oedd yn destun y gwyn; y gwyn honedig; y canlyniad, a ffynhonell y gwyn ar gyfer nifer o achosion a gwblhawyd a rhai cyfredol. Wedi ystyried y nifer o gwynion aelod-aelod nas dilynwyd gan yr Ombwdsmon, ategodd y pwyllgor eu barn y byddai'n fuddiol i Brotocol Hunanreoli'r Aelodau gael ei ymestyn i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned. Fe nododd y pwyllgor hefyd fod cwynion aelodau wedi eu cyfyngu i ddim ond pedwar awdurdod ofddifewn i Sir Ddinbych gyda 50% o'r cwynion yn deillio o un Cyngor Tref yn unig. Mynegwyd pryderon ynghylch y potential o ddial ymysg aelodau gyda chwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill, yn groes i ysbryd y Cod Ymddygiad. Gan hynny, teimlai aelodau fod yr adroddiad wedi amlygu'r angen am hyfforddiant ac fe gytunwyd y byddai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cychwyn gyda'r awdurdodau hynny a fu'n destun cwynion aelodau fel a nodwyd o fewn yr adroddiad; yn gyntaf, yn benodol, y Cyngor Tref a fu'n destun y nifer mwya' o gwynion aelodau.

Yn y fan hon, gofynnodd y Cyng. D.E.Jones a'r Cyng.G.A.Green am eglurhad gan y DSM ynglyn â'u presenoldeb a'u rôl mewn cyfarfodydd neilltuol. Darparodd y DSM gynor cyfreithiol i'r aelodau hynny a phwysleisiodd y pwysigrwydd o sicrhau nad oedd rhagfarnu na chyfaddawdu aelodau yn nhermau materion a all eu cyfeirio i'r pwyllgor ar gyfer ystyriaeth yn y dyfodol. O ran presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd Cynghorau Sirol, Tref a Chymuned , roedd angen i'w hadrodd nôl i'r pwyllgor hwn fod yn wrthrychol.

Yn olaf, mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyng. H.Ll.Jones ynglyn â chwynion cyfredol yn erbyn cynghorwyr a fethodd gael eu hail-ethol, fe gynghorodd y DSM y byddai cwynion yn parhau i gael eu hymchwilio ond roedd angen gorfodi sancsiynua fyddai'n cydnabod y ffaith honno.

***PENDERFYNWYD*** *fod –*

*a) yr adroddiad i’w dderbyn a’i nodi, ac*

*b) yr argymhellir fod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cychwyn gyda’r awdurdodau rheini a fanylwyd yn yr adroddiad, a fu’n destun cwynion aelodau, gyda’r Cyngor Tre,f a fu’n destun y nifer fwya’ o gwynion, yn gyntaf.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 a.b.

**Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen**

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Safonau**

**ADRODDIAD GAN:** **Swyddog Monitro**

**DYDDIAD:** **23ain Medi 2011**

**PWNC:** **PROTOCOL HUNANREOLI**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd mewn perthynas â'r Protocol Hunanreoli.

## 2 CEFNDIR

2.1 Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith yr Aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymarfer. Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor Safonau wedi lleisio pryderon ynglŷn â nifer y cwynion a wneir rhwng Aelodau a all ymweud â mân gwynion nad ydynt ynddynt eu hunain yn ddigon difrifol i'w cyfeirio at yr Ombwdsmon fel achosion o dorri'r Cod Ymarfer.

2.2 Mae paragraff 6(1) o God Ymarfer yr Aelodau yn nodi na ddylai Aelodau wneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn Aelodau eraill, gan fod hyn ynddo'i hun yn torri'r Cod. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon y gellir defnyddio'r Cod ar achlysur fel arf gwleidyddol, ac nad dyma oedd ei bwrpas. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am gael ei hysbysu'n rheolaidd am lefel a natur cwynion aelod-aelod.

2.3 Mae Protocol Hunanreoli, gyda rhai newidiadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad hyd yma, ynghlwm yn Atodiad 1. Pwrpas y Protocol yw sefydlu trefn ar gyfer y cwynion hynny nad ydynt yn cyrraeth y trothwy i fod yn dor-rheol, i gael eu trin dan drefn leol; a bod yr hyn sy'n cyfiawnhau cyflwyno cwyn ffurfiol yn cael ei chyfeirio at yr Ombwdsmon. Os caiff ei fabwysiadu, y bwriad yw bod y Protocol yn mynd gyda'r Cod Ymarfer; ni fyddai ac ni allai ddisodli'r Cod statudol. Bydd y cynnig hwn yn golygu ymrwymiad gan Arweinwyr Grwpiau ac un aelod annibynnol (yn ei dro) o'r Pwyllgor Safonau.

2.4 Mae'r Arweinydd ac Arweinwyr y Grwpiau wedi ystyried y Protocol ac mae angen nawr ymestyn yr Ymgynghoriad i'r holl Gynghorwyr cyn cael unrhyw drafodaeth ar y protocol a'i ddefnydd gan y Cyngor Llawn.

2.5 Mae cynllun cyflawni diwygiedig yn nodi'r broses ymgynghorol cyn i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu. Mae copi o'r Protocol drafft hefyd wedi ei roddi i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gynnar yn y broses

| CAMAU GOFYNNOL | GAN BWY | DYDDIAD |
|---|---|---|
| **Ystyried y protocol a'i weithdrefnau ac adborth i'r Swyddog Monitro** | **Tîm Gweithredol Corfforaethol** | **Cwblhawyd** |
| **Cael barn a chymeradwyaeth mewn egwyddor gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru** | **Swyddog Monitro** | **Cwblhawyd** |
| **Adroddiad i Arweinwyr y Grwpiau** | **Swyddog Monitro** | **Cwblhawyd** |
| **Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar y drafft cyntaf** | **Swyddog Monitro** | **Cwblhawyd** |
| **Proses ymgynghorol gyda'r holl aelodau** | **Swyddog Monitro** | **Mae'r aelodau wedi derbyn y Protocol a medrent gyflwyno sylwadau erbyn 5ed Ionawr 2012** |
| **Adroddiad pellach i'r Pwyllgor Safonau gyda drafft terfynol** | **Swyddog Monitro** | **27ain Ionawr 2012** |
| **Cyngor Anffurfiol yn ystyried y Protocol os oes angen, yna'r Cyngor llawn** | **Arweinydd / Swyddog Monitro** | **10fed Ionawr 2011 a 28ain Chwefror 2012** |

## 3 ARGYMHELLIAD

Bod yr Aelodau'n cydnabod y cynnydd.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

# P R O T O C O L H U N A N R E O L I'R A E L O D A U

DRAFT

## Egwyddorion Cyffredinol

- Hybu safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad fel dull o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith aelodau. NI fwriedir disodli'r Cod Ymarfer; y bwriad yw cael y Protocol ynghyd â'r Cod, gan alluogi delio ag ymddygiad nad yw'n cyrraedd y trothwy sy'n golygu torri'r Cod, a bod yr hyn sy'n cyfiawnhau cyflwyno cwyn ffurfiol yn cael ei gyfeirio i sylw'r Ombwdsmon.

- Nid yw'r protocol yn disodli'r Protocol Cysylltiadau Aelodau-Swyddogion a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

- Dylai'r aelodau wneud pob ymdrech resymol i ddatrys anghydfod trwy brosesau mewnol a gytunwyd, yn amodol ar eu cyfrifoldebau dan God Ymarfer yr Aelodau.

- Bydd cyfeirio mater i sylw rheolwyr allanol yn digwydd dim ond pan fetho popeth arall, yn amodol ar gyfrifoldebau'r Aelodau dan y Cod Ymarfer.

- Dylai Aelodau osgoi gwrthdaro personol mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig y Cyngor llawn a thrwy'r cyfryngau.

- Ni fydd y sylwadau hyn yn llesteirio trafodaeth wleidyddol ddilys neu waith craffu.

- Bydd disgyblaeth grŵp yn dod yn gonglfaen i hunanreoli gydag Arweinwyr Grwpiau yn cymryd cyfrifoldeb am eu haelodau eu hunain.

- Bydd Arweinwyr Grwpiau yn unigol a chyda'i gilydd yn gweithio i sicrhau cydymffurfio gyda'r protocol hwn.

- Bydd yr Aelodau yn ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad i gefnogi'r protocol hwn.

## Gweithio i osgoi problemau

I leihau nifer yr achosion honedig o dorri'r Cod, mae holl Arweinwyr Grwpiau wedi ymrwymo i:-

- **Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau** – y byddant yn ceisio sicrhau ymrwymiad aelodau eu grŵp iddi. Gwneir holl ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y Straegaeth Dysgu a Datblygu yn adnabod ac yn ymateb i anghenion yr aelodau.

- **Mynychu digwyddiadau perthnasol hyfforddi Aelodau** – yn enwedig rhai sy'n ymwneud â'r Cod Ymarfer neu gyrsiau cywirdeb o fewn cwmpas eu rôl.

- **Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** – Dyfarnwyd i'r Cyngor Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n cefnogi ei hamcanion. Bydd Arweinwyr Grwpiau yn ceisio sicrhau ymrwymiad aelodau unigol i'r hyfforddiant ac yn adolygu hyn yn rheolaidd.

## Rôl Arweinwyr Grwpiau

Bydd cwyn gan aelod sy'n ymwneud ag aelod o'r un grŵp yn cael ei chyferirio i sylw Arweinydd y Grŵp. Trafodir cwyn gan aelod sy'n ymwneud â gweithgareddau aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol yn cael ei thrafod gydag Arweinydd Grŵp yr achwynydd ei hun, a fydd wedyn yn cyfeirio'r mater i Arweinydd y Grŵp gyda chyfrifoldeb am yr aelod yn erbyn yr hwn y gwnaed y gŵyn.

Ar ôl derbyn cwyn, rôl Arweinwyr Grwpiau yw cymryd cyfrifoldeb am ddisgyblaeth o fewn eu grwpiau. Dylai disgyblaeth grŵp geisio bod yn anffurfiol, gan ddatrys y mater mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd angen i Arweinwyr Grwpiau gadw rhai cofnodion, ond ni fydd yn broses yn golygu llawer o ddogfennau. Dylid cadw'r pwyslais ar hyfforddi, addysgu, cyfryngu a chymodi.

Pan fydd yn briodol, gellir defnyddio cosb megis symud aelod oddi ar bwyllgor neu gorff allanol mewn achosion eithafol neu ar ôl nifer o achosion o dorri'r cod, a chaiff y mater ei gyfeirio i sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyn ystyried unrhyw gosb, neu hyfforddiant, gall Arweinydd y Grŵp perthnasol ymgynghori ag aelod o'r Pwyllgor Safonau ar y cyd â'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro. Bydd y Pwyllgor Safonau yn ceisio sicrhau tegwch a chysondeb o ran y ddisgyblaeth a ddefnyddir ym mhob Grŵp.

Yng nghyfarfod nesaf cyfleus Arweinwyr y Grwpiau, trafodir unrhyw fater disgyblu sydd wedi ei gyfeirio i sylw Arweinydd Grŵp gyda'r Grŵp, a chyda'r nod o geisio sicrhau bod cosbau teg a chyson yn cael eu defnyddio.

Os bydd cwyn yn ymwneud ag Arweinydd Grŵp, gofynnir i'r Cadeirdydd ystyried y gŵyn, yn yr un modd â chydag aelodau digysylltiad.

## Aelodau Digysylltiad

Cyn belled ag y mae aelodau digysylltiad yn y cwestiwn, bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni rôl Arweinydd Grŵp. Dylid cyfeirio pryderon ynglŷn ag ymddygiad aelod disgysylltiad at y Cadeirydd, a fydd yn defnyddio'r un egwyddorion a'r safonau â rhai Arweinwyr y Grŵp o ran hyfforddi/cyfryngu/cymodi. Os bydd achosion parhaus o dorri'r cod caiff y mater ei gyfeirio at yr Ombwdsmon gan y Swyddog Monitro neu yn ei absenoldeb ef, gan y Dirprwy Swyddog Monitro.

## Torri'r Cod yn Barhaus

Os bydd achosion parhaus o dorri'r Cod, neu feysydd lle mae gan Arweinwyr Grwpiau bryderon bod ymddygiad aelod neu aelodau unigol yn niweidio'r berthynas rhwng grwpiau gwleidyddol neu enw da'r Cyngor, yna bydd Arweinwyr y Grwpiau yn cyfarfod gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Monitro i gytuno ar y ffordd ymlaen. Ystyrir cyd-gyfeiriad at yr Ombwdsmon, gan Arweinwyr Grwpiau, am achosion parhaus lefel isel.

## Pwyllgor Safonau

- Oherwydd y posiblrwydd o wrthdaro, ni fydd unrhyw gyfranogiad yn cynnwys mwy nag un aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Bydd hyn yn cylchdroi ac yn unol ag argaeledd.

- Bydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn chwarae rôl gefnogol/ymgynghorol i Arweinwyr y Grwpiau. Cychwynnir ar y broses hon ar gais Arweinydd y Grŵp, mewn achos penodol.

- Bydd y cyfarfodydd hyn yn breifat ac anffurfiol.

- Bydd unrhyw ddogfennau, nodiadau presenoldeb, nodiadau ffeil neu nodiadau cynghori rhwng Arweinydd y Grŵp (neu Gadeirydd y Cyngor fel y bo'n briodol) ac aelodau'r Pwyllgor Safonau yn aros yn breifat a chyfrinachol.

Adolygir y protocol hwn erbyn Mai 2013.

DRAFT

## SIART LLIF CWYNION AELOD / AELOD

SM YN DERBYN CWYN
SM YN YSTYRIED OS YW'N BRIODOL CYFEIRIO'R MATER I SYLW ARWEINWYR GRŴP NEU'R OMBWDSMON (cyfeirio o fewn 5 diwrnod gwaith)

→ OMBWDSMON

↓

ARWEINYDD GRŴP NEU GADEIRYDD Y CYNGOR (Aelodau digysylltiad)

**Left branch:**

ARWEINYDD/WYR GRWPIAU

↓

ARWEINYDD/WYR GRWPIAU YN YSTYRIED Y GWYN A DATRYS gyda'r SM (o fewn 15 diwrnod gwaith)

↓

OS NA FEDR ARWEINYDD/WYR GRŴP DDATRYS, TREFNU CYFARFOD GYDA'R SM + 1 AELOD ANNIBYNNOL Y PWYLLGOR SAFONAU (o fewn 15 diwrnod gwaith)

**Right branch:**

CADEIRYDD Y CYNGOR

↓

CADEIRYDD YN YSTYRIED Y GWYN A DATRYS GYDA"R SM (o fewn 15 diwrnod gwaith)

↓

OS NAD OES MODD DATRYS RHWNG Y CADEIRYDD AC AELOD, GALL Y CADEIRYDD DREFNU CYFARFOD GYDA'R SM AC 1 AELOD ANNIBYNNOL Y PWYLLGOR SAFONAU (o fewn 15 diwrnod gwaith)

↓

COSB A/NEU GYFEIRIO'R MATER I SYLW'R PWYLLGOR SAFONAU NEU'R OMBWDSMON. YSTYRIED DARPARU HYFFORDDIANT / CYFRYNGU

MEWN ACHOSION O DORRI'R COD YN BARHAUS, BYDD ARWEINWYR GRWPIAU YN CYFARFOD GYDA'R PRIF WEITHREDWR A'R SWYDDOG MONITRO I GYTUNO AR Y FFORDD YMLAEN. YSTYRIR CYD-GYFEIRIAD I SYLW'R OMBWDSMON GAN ARWEINWYR GRWPIAU AM ACHOSION PARHAUS LEFEL ISEL

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU
# NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM

## Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2011 at 10.00 am
## Tuesday, 1 November 2011 at 10.00 am

## Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| **Ynys Môn/Isle of Anglesey** | Jeff Cotterell - Cadeirydd/Chair<br>Sue Morris - Is-Gadeirydd/Vice-Chairman<br>Lynn Ball - Swyddog Monitro/Monitoring Officer<br>Robyn Jones - Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer |
